**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**5ed Chwefror 2008**

**RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH MEWN DIGWYDDIADAU**

**Adroddiad gan Simon Smith,**
**Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I roi gwybodaeth i Aelodau parthed y Rhybudd Gwella gyhoeddwyd i Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Warwick a'r goblygiadau potensial i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Deyrnas Unedig (DU).

## Cyflwyniad

**2.** Bydd aelodau yn ymwybodol o'r tân mewn ffactri pecynnu bwyd yn Atherstone on Stour, Swydd Warwick ym mis Tachwedd 2007 pan gollodd pedwar o ddiffoddwyr tân eu bywydau.

**3.** Fel canlyniad i'r digwyddiad trasig hwnnw, mae Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn gweithio gyda Heddlu Swydd Warwick sy'n arwain ymchwiliad troseddol i amgylchiadau'r marwolaethau.

**4.** Mae'r ymchwiliad yn edrych yn fanwl ar bob agwedd o'r digwyddiad sy'n cynnwys y trefniadau ehangach sydd gan Awdurdod Tân ac Achub Swydd Warwick yn eu lle ar gyfer rheoli risgiau, mewn digwyddiadau ac yn gyffredinol.

## Ystyriaethau

**5.** Fel cyflogwyr diffoddwyr tân, mae gan Awdurdodau Tân ac Achub dyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio gyda gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

**6.** Ystyrir lleoliad y tân/digwyddiad yn weithle.

**7.** Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub cael trefniadau priodol, o dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, i adnabod risgiau i iechyd a diogelwch a darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y risgiau hynny er mwyn diogelu iechyd a diogelwch.

**8.** Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn amodol ar ddyletswydd bellach o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 adran 7(2)(d) sy'n gwneud hi'n orfodol i Awdurdodau wneud trefniadau i gael y wybodaeth angenrheidiol i'r dibenion o ddiffodd tân ac amddiffyn bywyd ac eiddo mewn digwyddiad o dân, yn cynnwys y gofyniad i amddiffyn diffoddwyr tân gweithredol.

## Y sefyllfa bresennol

**9.** O ganlyniad i'r archwiliad, mae'r HSE wedi ffurfio'r farn nad yw trefniadau presennol Awdurdod Tân ac Achub Swydd Warwick yn cydymffurfio gyda'r dyletswyddau statudol i ddarparu'r diffoddwyr tân gyda'r holl wybodaeth ddylent ei gael i'w cynorthwyo i wneud y penderfyniadau priodol wrth fynychu tân.

**10.** Fe gyhoeddodd yr HSE Rybudd Gwella ar y 16eg Ionawr 2008. Mae gan Awdurdod Tân ac Achub Swydd Warwick 21 diwrnod i apelio yn erbyn y rhybudd. Ar ôl y cyfnod yma, os na fydd apêl yn cael ei chyflwyno, bydd yr HSE yn cyhoeddi manylion y Rhybudd.

**Goblygiadau**

11. Mae Llywodraeth Ganolog, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn adolygu'r wybodaeth a'r canllawiau mae'n eu darparu i Wasanaethau Tân ac Achub mewn perthynas â risg a rhagwelir bydd swm sylweddol o waith a chanllawiau newydd yn y maes hwn.

12. O ganlyniad i'r Rhybudd Gwella, bydd Gwasanaethau Tân ac Achub yn adolygu eu polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag asesiad risg a gwybodaeth risg mewn digwyddiadau gweithredol.

13. Nid yw'r effaith fydd hwn yn ei gael ar bolisïau a phrosesau cyfredol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eto'n eglur, ond mae'n debygol iawn bydd rhaid cynyddu'r casgliad o wybodaeth weithredol. Mae gan hyn y potensial o effeithio'n arwyddocaol ar adnoddau'r Gwasanaeth wrth gyflwyno Diogelwch Tân Cymunedol.

**Argymhelliad**

14. Fod Aelodau yn nodi'r goblygiadau a'r llwythi gwaith a ddaw.